OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3065

# Gorchymyn Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007

**Arbed codau argymhellion ar gyfer lles da byw a darpariaethau trosiannol**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff 3, bydd cod argymhellion ar gyfer lles da byw a ddyroddwyd o dan adran 3 o Ddeddf 1968—

(a) yn effeithiol yn ystod y cyfnod trosiannol o ran anifeiliaid a ffermir o rywogaeth y mae'r cod yn berthnasol iddo megis petai'r cod wedi'i ddyroddi o dan adran 14 o Ddeddf 2006;

(b) yn un y caniateir ei adolygu yn unol ag adrannau 14 a 15 o Ddeddf 2006; ac

(c) yn un y caniateir ei ddiddymu yn unol ag adran 17 o Ddeddf (2006)

(2) Ym mharagraff 1(a), ystyr cyfnod trosiannol ar gyfer cod argymhellion yw'r cyfnod rhwng dyfodiad y Gorchymyn hwn i rym a dirymiad y cod argymhellion hwnnw o dan adran 17 o Ddeddf 2006.

(3) O ran cod argymhellion—

(a) y mae'n gymwys i anifeiliaid a ffermir o rywogaeth y mae'r cod hwnnw'n ymwneud ag ef p'un ai yw'r anifail ar dir amaethyddol fel y'i diffinnir yn adran 8(1) o Ddeddf 1968 ai peidio; a

(b) nid yw'n cynnwys y "Cod Argymhellion ar gyfer Lles Dofednod Domestig"(**1**) a ddaeth i rym ar 1 Medi 1987.

(**1**) Gellir cael copïau oddi wrth Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.